# Swydd Wag – Swyddog Datblygu Menywod a Merched

**Teitl y Swydd**: Swyddog Datblygu Menywod a Merched Criced Cymru De Ddwyrain Cymru
**Lleoliad:** Rhanbarthol
**Yn adrodd i:** Swyddog Arweiniol Menywod a Merched
**Cyflog**: £24,480
**Cytundeb :** Llawnamser

Ydych chi'n angerddol dros chwaraeon merched a menywod? Ydych chi am ysbrydoli mwy o fenywod i gymryd rhan a helpu i wneud **Criced yn Gêm i Bawb** yng Nghymru? Rydym yn chwilio am ddau Swyddog Datblygu Menywod a Merched newydd i hyrwyddo'r gêm menywod ymhellach, a chynyddu nifer y merched a menywod sy'n chwarae Criced.

Mae gan bob menyw a merch ledled Cymru gyfle i gymryd rhan mewn Criced. Serch y twf cyflym dros y ddegawd ddiwethaf, rhaid inni ganolbwyntio ar gadw chwaraewyr ac ar gynaliadwyedd. Mae gennym gyfle unigryw i sicrhau mai Criced yw'r gamp fwyaf cynhwysol yng Nghymru, drwy gryfhau ein gêm menywod, dathlu'r effaith, a chodi ei phroffil.

Trwy weithio **Gyda'n Gilydd**, mynd ati i **Arwain**, a sicrhau ein bod yn **Gofalu** am bob menyw a merch yn ein gêm, byddwn yn gwneud Criced yng Nghymru yn wirioneddol gynhwysol, cynaliadwy a ffyniannus.

**Beth fyddwch chi'n ei garu.**

- Y cyfle i fod yn rhan o'n gweledigaeth strategol newydd ar adeg dyngedfennol i griced yng Nghymru.
- Bod yn rhan o symudiad cenedlaethol sy'n tyfu criced yng Nghymru.
- Gwaith amrywiol, ystyrlon sy'n cael effaith gymunedol go iawn.
- Cyfle i ddysgu, tyfu a gwneud gwahaniaeth ym myd chwaraeon.
- Opsiynau gweithio hyblyg.
- Cyflog cystadleuol a buddiannau gwych
- Cynllun pensiwn y cwmni

**Mi fyddwch chi'n:**

- Cynorthwyo i weinyddu criced hamdden menywod a merched, gan gynnwys strwythur y gynghrair menywod a merched.
- Cynorthwyo i gynyddu'r nifer o fenywod a merched sy'n cymryd rhan yn y gêm, boed yn hyfforddwyr, swyddogion neu wirfoddolwyr.
- Ysbrydoli mwy o fenywod a merched drwy farchnata wedi'i dargedu, a darparu cyfleoedd ar lefel genedlaethol.

Mi fyddwch chi hefyd yn cydweithio ag ysgolion, grwpiau cymunedol, clybiau, partneriaid, a rhanddeiliaid ariannu allweddol i helpu i ddarparu sesiynau criced, cystadlaethau, digwyddiadau, a datblygu ffyrdd newydd cyffrous o gymryd rhan yn y gêm. O gefnogi criced iau mewn ysgolion i weithio gyda phrosiectau criced

cymunedol i helpu i ysbrydoli cyfranogwyr a gwirfoddolwyr, mi fyddwch chi'n chwarae rôl allweddol yn gwireddu ein gweledigaeth, sef Criced, Gêm i Bawb.

**Rydym am recriwtio unigolion brwdfrydig sydd â:**

- Sgiliau dylanwadu cryf a'r gallu i weithio gyda gwirfoddolwyr.
- Angerdd dros gael merched a menywod i gymryd rhan mewn chwaraeon, ac angerdd dros griced.
- Sgiliau rheoli prosiectau, partneriaeth, a sgiliau rhyngbersonol cryf, i allu gweithio gyda phartneriaid lluosog.
- Profiad o ddatblygu chwaraeon lle rydych wedi cael enw da am gyflawni.

**Criced yng Nghymru – creu ffyrdd deniadol o gymryd rhan mewn criced.**

Yn ddiweddar, lansiodd Criced Cymru strategaeth newydd sbon gyffrous a deinamig, a ddatblygwyd mewn partneriaeth â Criced Morgannwg. Mae'r strategaeth hon yn sicrhau bod criced yng Nghymru'n ffynnu, nawr ac yn y dyfodol. Wrth galon y weledigaeth hon mae ein hymrwymiad, sef **Criced, Gêm i Bawb**, sy'n sicrhau bod pobl o bob oedran a chefndir yn cael cyfleoedd cyffrous ac ystyrlon i gymryd rhan yn y gêm. Trwy gynnig rhaglenni clir, deniadol ac arloesol, ein nod yw gwella profiadau criced a'r hyn a gynigiwn i gymunedau.

**Gyda'n Gilydd, Arwain, Gofalu** - dyma ein gwerthoedd. Os ydych chi'n credu mewn grymuso cymunedau, ysbrydoli pobl i weithredu, a gweithio ar y cyd i wneud gwahaniaeth go iawn, rydym am eich cael chi ar ein tîm.

**DISGRIFIAD O'R SWYDD**

**Prif Gyfrifoldebau**

Bydd cyfrifoldebau rolau Swyddogion Datblygu Criced Menywod a Merched yn cynnwys:

- Bod yn bwynt cyswllt criced menywod a merched o fewn meysydd penodol twf cyfranogiad, clybiau a datblygu'r gweithlu.
- Sicrhau'r mwyaf posib o gyfleoedd i ferched mewn clybiau criced drwy'r rhaglenni 'All Stars' a 'Dynamos Cricket'.
- Adolygu data All Stars a Dynamos Cricket i gael gwybodaeth i helpu i hyrwyddo'r gêm merched ymhellach ar draws yr ardal.
- Gweithio gyda chlybiau criced i sefydlu adrannau merched o fewn y grwpiau oedran Dan 8, Dan 10, Dan 12, Dan 14 a Dan 16.
- Rheoli a chydlynu cynghreiriau menywod a merched.
- Datblygu fframwaith lle gall y sector clybiau merched fwydo'n ddi-dor i lwybr Rhanbarthol Criced Cymru a cham Ymgysylltu Cynnar Morgannwg yn eich ardal.
- Cynnal a datblygu cynigion chwarae trwy'r flwyddyn sy'n bodoli eisoes ar gyfer menwyod a merched, gan gynnwys criced dan do.
- Nodi cyfleoedd lleol i ymgysylltu â menywod i roi cynnig ar griced a chymryd rhan mewn gwyliau pêl-feddal i fenywod.
- Datblygu a chefnogi twf gweithgareddau pêl-feddal i fenywod i greu gemau strwythuredig rheolaidd (cynghreiriau lleol/cystadlaethau ac ati).
- Datblygu a thyfu'r gweithlu menywod a merched ar draws yr ardal.
- Chwarae rôl arweiniol o fewn y Gweithgor Criced Menywod.
- Canolbwyntio ar gynaliadwyedd hirdymor a llwybrau gadael ar gyfer menywod a merched. Cynorthwyo clybiau i gynnal, tyfu, a datblygu'r ddarpariaeth bresennol ar gyfer menywod a merched.
- Datblygu a rheoli'r ddarpariaeth/cyfleoedd yn y dyfodol i fenywod a merched gael cynnig trosglwyddo o'r gêm pêl-feddal i'r gêm pêl-galed.

- Cydlynu a chyflenwi cystadlaethau a rhaglenni ar gyfer merched ysgol uwchradd sydd â chyswllt â thimau merched D13/D15 clybiau.
- Gweithio ochr yn ochr â'r tîm cyfranogi i nodi ysgolion ar gyfer cyfleoedd criced allanol i ferched mewn clybiau lleol, gan gynnwys cefnogi gwyliau ar gyfer merched ysgol gynradd.
- Cynorthwyo Clwb Criced Morgannwg i greu patrymau ymddygiad a phwyntiau cyswllt yn eich ardal.
- Creu a chynnal perthynas agos â chlybiau, awdurdodau lleol, cynghreiriau, 'Chance to Shine', ECB, grwpiau menywod cymunedol, Cyrff Llywodraethu Cenedlaethol eraill, a phartneriaid newydd eraill, lle bo'n briodol.
- Monitro a gwerthuso pob prosiect ac ysgrifennu adroddiadau ar gyfer noddwyr a phartneriaid.
- Manteisio ar y cyfle yn sgil tîm menywod Tân Cymreig i godi proffil criced menywod.
- Dyletswyddau eraill perthnasol fel bo'n ofynnol gan y Swyddog Arweiniol Menywod a Merched.

**Sgiliau a Phrofiad Gofynnol:**

**Hanfodol:**

- Profiad o ddatblygu chwaraeon lle rydych wedi cael enw da am gyflawni.
- Angerdd dros, a phrofiad o ymgysylltu â menywod a merched i'w cael i gymryd rhan mewn Criced a chwaraeon.
- Profiad o gyflenwi rhaglenni datblygu chwaraeon i fenywod a/neu grwpiau anodd eu cyrraedd.
- Profiad o weithio gyda gwirfoddolwyr a grwpiau cymunedol.
- Profiad o drefnu digwyddiadau chwaraeon gyda nifer fawr o gyfranogwyr.
- Sgiliau cyfathrebu ardderchog ar sawl ffurf gwahanol e.e. wyneb yn wyneb, ffôn ac e-bost.
- Y gallu i addasu a bod yn hyblyg o ran patrymau gwaith, gan fodloni anghenion gweithio gyda gwirfoddolwyr.
- Sgiliau trefnu a chynllunio cryf.
- Sgiliau rheoli prosiectau a chyllidebau.
- Hyfedredd TG o ran pecynnau Microsoft e.e. Teams, Word, Excel, PowerPoint.

**Dymunol:**

- Siaradwr Cymraeg.
- Gwybodaeth o ddatblygu chwaraeon a'r byd criced yng Nghymru.
- Profiad o weithio gyda chlybiau a chynghreiriau chwaraeon.
- Sgiliau a defnydd o blatfformau cyfryngau cymdeithasol.

**Cymwysterau (Dymunol):**

- Cymhwyster Criced Sylfaenol (Lefel 1) neu Hyfforddwr Craidd (Lefel 2)
- Cymwysterau hyfforddi chwaraeon eraill.
- Gradd mewn Chwaraeon neu Ddatblygu Chwaraeon.

**Gwybodaeth Ychwanegol am y Rôl**

- Trwydded yrru ddilys
- Ymgymryd â gwiriad DBS manwl yr ECB.
- Parodrwydd i gwblhau hyfforddiant Cymorth Cyntaf, Diogelu, a hyfforddiant priodol ar gyfer y rôl.
- Parodrwydd i weithio oriau anghymdeithasol a theithio ar hyd a lled rhanbarthau daearyddol.
- Cymwys yn defnyddio Microsoft Office.

**Perthnasau Allweddol:**

- Clybiau
- Swyddog Arweiniol Menywod a Merched Criced Cymru a thimau ehangach Criced Cymru.
- Grwpiau cymunedol, 'Women in Sport', 'This Girl Can', rhwydweithiau a grwpiau menywod lleol.
- Rhanddeiliaid allweddol yr Awdurdod Lleol.
- Swyddogion Arweiniol Chwaraeon Allweddol (Criced) eraill mewn ysgolion a chlybiau.
- Swyddogion Arweiniol Cyrff Llywodraethu eraill chwaraeon merched a menywod.
- Cysylltiadau Rhanbarthol ECB a byrddau criced sirol eraill drwy Dimau Criced Cymru.

Ar adeg penodi, bydd angen ichi gael gwiriad DBS (ECB) clir.

**Ein Hymrwymiad i Gynhwysiant a Lles**

Mae gwerthoedd Criced Cymru sef **Gyda'n Gilydd, Arwain, Gofalu** yn rhan annatod o bob agwedd o'r sefydliad, ac maent yn arwain ein gweithredoedd a'n penderfyniadau, gan sicrhau cyfleoedd cyfartal i bawb. Rydym yn annog ceisiadau yn arbennig gan unigolion sydd heb gynrychiolaeth ddigonol ym myd criced, gan gynnwys menywod, cymunedau ethnig amrywiol ac unigolion gydag anableddau. Rydym hefyd wedi ymrwymo I feithri profiadau cynhwysol i bawb, yn unol â'n gweledigaeth strategol **Criced, Gêm i BAWB**, byddem wrth ein boddau'n clywed gennych chi.

**I wneud cais:**

Llenwch y ffurflen gais sydd wedi'i hatodi a'i dychwelyd at sandie.keane@cricketwales.org.uk ynghyd â llythyr eglurhaol erbyn canol dydd ar 20 Mawrth 2026.

Os hoffech chi drafod y rôl hon, cysylltwch â'r Swyddog Arweiniol Menywod a Merched carl.holding@cricketwales.org.uk

Sylwer: Os na fyddwch chi wedi clywed gennym erbyn 25 Mawrth 2026 ni fydd eich cais wedi llwyddo i fynd ymlaen i'r cam nesaf.

**RECRIWTIO MWY DIOGEL**

I gael manylion am ein hymrwymiad i Recriwtio Mwy Diogel gweler ein Polisi Recriwtio Mwy Diogel

**DIOGELU**

Mae Criced Cymru yn credu bod Diogelu yn elfen hanfodol sy'n ganolog i bopeth a wnawn. Mae gan bob plentyn, person ifanc ac oedolyn yr hawl i deimlo'n ddiogel ac yn rhan lawn o bopeth a wnânt, ac mae hyn yn golygu sicrhau ein bod â'r bobl iawn yn gweithio o fewn ein sefydliad, drwy ddilyn proses recriwtio gadarn a diogel. Mae Criced Cymru yn gwneud pob ymdrech i wneud criced yng Nghymru yn lle diogel a phleserus i 'bawb' ei brofi ar bob lefel o'r gêm.

Mae Criced Cymru wedi ymrwymo i ddarparu cyfleoedd cyfartal. Er y byddwn bob amser yn penodi ar sail teilyngdod, byddem yn annog ceisiadau yn arbennig oddi wrth grwpiau a chymunedau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol ym myd criced – yn enwedig merched neu bobl o gefndiroedd ethnig amrywiol, neu rai sydd ag anabledd.

***Rhaid ichi fod yn byw ac yn meddu ar yr hawl i weithio yn y DU i wneud cais am y swydd hon.***